

Cwestiynau cyffredin am uno Canolfan Feddygol Cwm Cynon â Meddygfa Tŷ Rhos

1. **Pryd ydyn ni'n disgwyl i'r uno ddigwydd?**

Rydyn ni'n disgwyl i'r uno ddigwydd o 1 Hydref 2020. Ni fydd fawr o newid i'r gwasanaeth rydych chi'n ei dderbyn. Fodd bynnag, bydd newidiadau y tu ôl i'r llenni, o ran TG a systemau mewnol eraill. Byddwn ni'n cyflwyno unrhyw newidiadau yn ein gwasanaethau yn raddol ar ôl yr uno. Yn gyntaf, bydd ein grwpiau cyfranogi cleifion yn rhoi eu mewnbwn. Bydd eich meddygfa yn fwy na bodlon rhoi cyngor i chi ar sut i gymryd rhan yn y grwpiau cyfranogi cleifion os ydych chi am ymuno.

2. **Sut fydd yr uno yn effeithio ar y gwasanaeth presennol?**

Mae'r meddygfeydd yn benderfynol o gynnal gwasanaethau cyfeillgar i deuluoedd, er gwaethaf y ffaith bod y feddygfa yn mynd i fod yn fwy. Fydd dim newidiadau mawr i'r gwasanaethau rydych chi fel claf yn eu derbyn.

3. **Beth fydd yr enw ar y feddygfa newydd ar ôl yr uno?**

Enw'r feddygfa newydd fydd Meddygfa Glan Cynon.

4. **Fydd angen i fi gofrestru eto â'r feddygfa ar ôl yr uno?**

Na fydd, fydd dim rhaid i chi gofrestru eto. Fodd bynnag, os ydych chi'n defnyddio My Health Online i archebu eich presgripsiynau neu i drefnu apwyntiadau, mae'n bosib y bydd angen i chi ailgofrestru eich cyfrif. Ewch i wefan y feddygfa am fanylion neu cysylltwch â'ch meddygfa yn uniongyrchol. Mae'r manylion cyswllt ar y llythyr.

5. **Beth os ydw i wedi symud o'r naill feddygfa i'r llall yn barod?**

Yn gyntaf, os oes unrhyw bryderon gyda chi y gellid eu hateb heb yr angen i chi newid, siaradwch â ni yn gyntaf. Fodd bynnag, os nad ydych chi'n fodlon derbyn eich gofal gan y feddygfa rydych chi wedi ei gadael, yna mae perffaith hawl gyda chi i gofrestru â meddygfa arall sy'n gwasanaethu eich ardal.

6. **Fydd yr oriau agor yn newid?**

Byddan. Bydd y feddygfa ar ôl yr uno yn gyfrifol am ofalu am ei chleifion rhwng 8am a 6.30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac eithrio gwyliau banc a gwyliau cyhoeddus.

7. **Fydd y rhifau ffôn yn newid?**

Nid ar hyn o bryd, byddwn ni'n cadw llinellau ffôn yr holl safleoedd. Byddwn ni'n ystyried hyn yn rhan o'r prosiect uno. Os byddwn ni'n penderfynu cael rhifau newydd, byddwn ni'n rhoi gwybod i chi am hyn cyn iddo ddigwydd. Mae'n bosib y bydd angen i ni wneud hyn pan fyddwn ni'n symud i'r Ganolfan Gofal Sylfaenol newydd sbon ar Stryd Rhydychen yn Aberpennar.

8. **Fydd unrhyw newidiadau i sut rydw i'n cysylltu â'r gwasanaeth meddyg teulu tu allan i oriau?**

Na fydd. Er mwyn cael gafael ar feddyg teulu y tu allan i oriau agor arferol y feddygfa, bydd gofyn i gleifion ffonio **0300 123 5060** o hyd, ac fe fydd wedyn yn dweud wrthy ch chi pa wasanaeth fyddai orau i chi neu'n trefnu i chi weld meddyg teulu.

9. **Fydd fy nhrefniadau ar gyfer casglu fy moddion yn aros yr un fath?**
Bydd. Byddwch chi'n gallu archebu a chasglu eich presgripsiwn rheolaidd yn yr un modd â'r arfer, a hynny gan ddefnyddio MyHealthOnline neu drwy un o'r fferyllfeydd lleol os yw'n bosib. Bydd y feddygfa newydd yn ystyried sut bydd yn gallu gwella'r gwasanaeth hwn er mwyn ei gwneud yn haws i gleifion gael eu moddion rheolaidd.
10. **Fydd yr uno yn effeithio ar fy nhriniaeth neu fy moddion presennol naill ai yn fy meddygfa arferol neu mewn unrhyw ysbyty?**
Fydd yr uno ddim yn effeithio ar unrhyw driniaethau, moddion neu ymchwiliadau presennol.
11. **Fydd modd i fi weld fy meddyg neu nyrs arferol?**
Fydd patrymau gwaith y meddygon a'r nyrsys sy'n gofalu amdanoch chi ddim yn newid. Rydyn ni'n gwerthfawrogi'n fawr bob un o'r perthnasau un wrth un sydd gan ein cleifion â'n meddygon a'n nyrsys.
12. **Fydd unrhyw rai o safleoedd y meddygfeydd presennol yn cau?**
Dydyd ni ddim yn bwriadu cau dim un o'r safleoedd o 1 Hydref ymlaen. Fodd bynnag, bydd ein safle presennol yn cau unwaith i ni symud i'r Ganolfan Gofal Sylfaenol newydd ar Stryd Rhydychen yn Aberpennar.
13. **Fydd ffiniau'r meddygfeydd yn newid?**
Bydd ffiniau'r feddygfa ar ôl yr uno yr un fath â ffiniau presennol Canolfan Feddygol Cwm Cynon a Meddygfa Tŷ Rhos.
14. **Ydyd chi'n uno er mwyn recriwtio rhagor o feddygon teulu?**
Fel y gwelwch chi yn y cyfryngau, mae recriwtio meddygon teulu yn bwnc llosg cenedlaethol. Bydd uno Canolfan Feddygol Cwm Cynon a Meddygfa Tŷ Rhos yn ehangu'r gronfa o feddygon teulu, nyrsys a gweithwyr ieuchyd proffesiynol eraill sydd ar gael i gleifion, bydd yn haws i bobl gael apwyntiad a bydd yn ehangu'r gwasanaethau rydyn ni'n eu cynnig.
15. **Fydd staff yn colli eu swyddi?**
Na fyddan. Bydd staff yn symud draw i'r feddygfa newydd o dan drefniadau TUPE. Rydyn ni'n rhagweld y bydd rhagor o gyfleoedd i staff ddatblygu a gwella eu sgiliau.
16. **Beth ddylwn i ei wneud os ydw i am gael rhagor o wybodaeth?**
Cewch chi anfon cwestiynau a/neu sylwadau ysgrifenedig at Graeme Hunter (Rheolwr Practis, Canolfan Feddygol Cwm Cynon) neu Sheryl Evans (Rheolwr Practis, Meddygfa Tŷ Rhos) a'u rhoi yn y blwch presgripsiynau rheolaidd naill ai yng Nghanolfan Feddygol Cwm Cynon neu ym Meddygfa Tŷ Rhos. Rydyn ni'n gobeithio trefnu sesiwn holi ac ateb. O ystyried y sefyllfa sydd ohoni, mae'n bosib y bydd hon yn cael ei chynnal ar-lein, wyneb yn wyneb (wrth gadw pellter cymdeithasol) neu'r ddau.

neu

Gallwch chi anfon unrhyw gwestiynau a/neu sylwadau at:

practice.manager.w95623@wales.nhs.uk neu practice.manager.w95029@wales.nhs.uk

neu'n ysgrifenedig:-

Graeme Hunter – Rheolwr Practis
Canolfan Feddygol Cwm Cynon
8 Heol Caerdydd

Aberpennar
CF45 4EY
Sheryl Evans – Rheolwr Practis

Meddygfa Tŷ Rhos
55 Stryd Rhydychen

Aberpennar
CF45 3HD